**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 12 Ebrill 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Paula O'Connor (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | T J Hennegan | P R Hood-Williams |
| O G James | M B Lewis | S Pritchard |
| L V Walton | | |

**Aelod Lleyg**
Julie Davies

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Cockings | Prif Archwiliwr |
| Marlyn Dickson | Strategic Change Programme Manager |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Justine Morgan | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Gillian Gillett | Swyddfa Archwilio Cymru |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
P M Black, D W Helliwell, J W Jones, C E Lloyd, J A Raynor a/ac T M White

---

## 88 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 89 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel cofnod cywir.

**90 Siarter Archwilio Mewnol Drafft 2022/23.**

Cyflwynodd Simon Cockings, Prif Archwiliwr, adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Siarter Archwilio Mewnol 2022/23. Tynnodd sylw'n benodol at y siarter a amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a oedd yn cynnwys y canlynol: -

- Diffiniad o Archwiliad Mewnol;
- Rôl a swyddogaeth archwilio mewnol;
- Cwmpas Archwiliad Mewnol;
- Annibyniaeth Archwiliad Mewnol;
- Rôl Ymgynghorol Archwiliad Mewnol;
- Rôl twyll, llwgrwobrwyo a llygru archwilio mewnol;
- Adnoddau archwilio mewnol; a
- Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella

Cadarnhaodd y Prif Swyddog nad oedd ganddo unrhyw gyfrifoldeb rheoli arall a oedd wedi cyfyngu ar annibyniaeth yr Archwiliad Mewnol.

Gofynnodd y pwyllgor am rôl ehangach Archwilio Mewnol, yn benodol ynghylch sefydliadau partner. Cadarnhaodd y Prif Archwiliwr y byddai'n diweddaru'r Siarter.

Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai angen ailymweld â'r cylch gorchwyl yn y dyfodol, yn enwedig o ran effaith Cyd-bwyllgor Corfforaethol Rhanbarthol De-orllewin Cymru a'r newidiadau y mae angen eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor.

**Penderfynwyd ar y canlynol:** -

1) Cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2022/23;
2) Diweddaru'r Siarter i adlewyrchu rôl ehangach Archwilio Mewnol o ran sefydliadau partner.

**91 Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2022/23.**

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23.

Darparwyd y Strategaeth Archwilio Mewnol 2022/23 yn Atodiad 1, crynodeb o Gynllun Archwilio Mewnol 2022/23 yn Atodiad 2, Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23 yn Atodiad 3, Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23 gan gynnwys cwmpas yn Atodiad 4 a'r Map Sicrwydd yn Atodiad 5.

Ychwanegodd ar gyfer 2022/23, fod yr adran Archwilio Mewnol yn cynnwys 9.1 cyfwerth amser llawn ynghyd â'r Prif Archwiliwr, yr un lefel o adnoddau ag a gafwyd yn 2021/22. Roedd hyn yn rhoi cyfanswm o 2,366 o ddiwrnodau a fyddai ar gael. Amlygwyd bod y cynllun yn darparu digon o staff ar draws adrannau.

Cafwyd trafodaeth yn dilyn hyn a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Cynnwys cwmpasau drafft defnyddiol;

- Perfformiad ac effeithiolrwydd Rheolau Gweithdrefnau Contractau (RhGC) gan gynnwys gweithdrefnau sy'n rhan o wariannau mawr;
- Sicrwydd a ddarperir gan adolygiadau perfformiad;
- Archwiliadau perfformiad corfforaethol;
- Sicrwydd a ddarperir gan adroddiadau blynyddol cyfarwyddwyr ar reolaeth fewnol;
- Effeithlonrwydd gwasanaethau ac adborth gan y rheini sy'n derbyn gwasanaethau, ymgynghoriad â defnyddwyr mewnol ac allanol;
- Cyfathrebiadau/cyfranogiad y cyhoedd;
- Ennyn diddordeb ac effeithiolrwydd gwasanaethau;
- Sicrwydd a ddarperir gan adroddiadau Archwilio Mewnol;
- Cynnwys y cyhoedd yn y broses benderfynu a'r argymhellion a gynhwysir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ynghylch cyfranogiad gwell.

**Penderfynwyd ar y canlynol:** -

1) Cymeradwyo’r Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol;
2) Ychwanegu adroddiad ar Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd at y cynllun gwaith ar 2022/23.

## 92 Trosolwg Risg Corfforaethol 2021/22 - Chwarter 4.

Cyflwynodd Richard Rowlands, Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol, adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu trosolwg o statws Risgiau Corfforaethol yn y cyngor i roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod risgiau allweddol yn cael eu rheoli'n unol â pholisi a fframwaith rheoli risgiau'r cyngor.

Roedd y canlynol yn crynhoi statws y risgiau a gofnodwyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar ddiwedd Chwarter 4 2021/22:

nodwyd 7 statws risg coch yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar ddiwedd y chwarter: -

- Rhif Adnabod Risg 153. Diogelu.
- Rhif Adnabod Risg 159. Rheolaeth Ariannol: Agweddau CATC ar Abertawe Gynaliadwy.
- Rhif Adnabod Risg 221 Argaeledd Gofal Cartref.
- Rhif Adnabod Risg 222. Digidol, Data a Seiberddiogelwch.
- Rhif Adnabod Risg 274. Gwasanaethau Cymdeithasol COVID-19.
- Rhif Adnabod Risg 306. WCCIS (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru).
- Rhif Adnabod Risg 309. Oracle Fusion.

- Cofnodwyd bod yr holl risgiau wedi'u hadolygu o leiaf unwaith yn ystod Chwarter 4.
- Ni ychwanegwyd risgiau newydd at y gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- Cafodd 2 risg corfforaethol eu dadactifadu yn ystod Chwarter 4:
    - Rhif Adnabod Risg 282. Ar ôl gadael yr UE.
    - Rhif Adnabod Risg 296. Cyflenwi deunyddiau adeiladu.
- Ni chafodd unrhyw risgiau eu codi i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

- Ni chafodd unrhyw risgiau corfforaethol eu tynnu oddi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- Lleihawyd lefel y risg ar gyfer 1 risg corfforaethol o statws Coch i Oren ac yna i statws Gwyrdd yn ystod Chwarter 4 - Rhif Adnabod Risg 264 - COVID-19.

Roedd Atodiad A yn cynnwys y risgiau ar 31/03/22 a gofnodwyd yng Nghofrestr Risgiau Corfforaethol y cyngor. Roedd yr adroddiadau ar gyfer pob risg yn cynnwys gwybodaeth esboniadol gyffredinol yn ymwneud â'u dosbarthiad.

Gofynnodd y pwyllgor am drin, trosglwyddo, goddef a therfynu, yn enwedig eu hystyr o ran risg.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at bwysigrwydd cadw llygad agos ar y risgiau a'r adroddiadau Archwilio Mewnol gan sicrhau bod rheoli risg ar waith o fewn yr adrannau.

**93 Adroddiad Archwilio Cymru - Crynodeb o Archwiliad Blynyddol Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2021.**

Cyflwynodd Justine Morgan a Gillian Gillett, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) Grynodeb Archwilio Blynyddol Dinas a Sir Abertawe 2021 a ddangosodd y gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.

Amlinellwyd bod SAC yn cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- Gwelliant Parhaus
- Archwilio Cyfrifon
- Gwerth am Arian
- Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Darparwyd manylion canfyddiadau Archwiliad o Gyfrifon 2020-21 Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r gwaith canlynol a wnaed:

- Gwaith SAC mewn ymateb i bandemig COVID-19;
- Gwelliant Parhaus;
- Cynaliadwyedd ariannol;
- Cynllunio adferiad;
- Arolygiaethau Eraill;
- Astudiaethau Llywodraeth Leol;
- Gwasanaethau Dewisol (Ebrill 2021);
- Adfywio canol trefi yng Nghymru (Medi 2021);
- Gwaith parhaus o 2020-21;
- Gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer 2021-2022.

Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad am y cynnydd ynghylch y barn cymwys a roddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatganiadau ariannol y cyngor.

Esboniwyd bod gwaith yn parhau ac roeddent yn aros am gyngor gan dîm technegol SAC.

Gwnaeth Adam Hill, y Dirprwy Brif Weithredwr sylwadau ar y cynnydd a wnaed a dywedodd fod y Cyfarwyddwr Cyllid yn gweithio'n galed i oresgyn y gwahaniaethau. Roedd hefyd wedi cydnabod y newid cadarnhaol i'r arferion gweithio rhwng yr Awdurdod a Swyddfa Archwilio Cymru.

Gofynnodd y pwyllgor am ddiweddariad ynghylch sefyllfa bresennol trafodaethau. Ychwanegodd y byddai nodyn ar y cyd gan y cyngor a SAC yn cael ei ddosbarthu i'r pwyllgor ynghylch y cynnydd a wnaed.

Gofynnodd y pwyllgor hefyd am y diweddaraf ynghylch cynnydd o ran yr adolygiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS), a gofynnodd i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r diweddaraf i'r pwyllgor ynghylch y cynnydd wrth gyflwyno ei ddiweddariad blynyddol ar reolaethau mewnol Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**94 Adroddiad diweddaru - Abertawe'n Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd.**

Cyflwynodd Marlyn Dickson, Rheolwr y Rhaglen Newid adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu diweddariad sicrwydd ar Gynllun Adfer a Thrawsnewid Abertawe - Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd.

Tynnodd sylw at bwrpas Nodau Strategol Abertawe - Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd a'r cerrig milltir allweddol hyd heddiw. Nodwyd bod Archwilio Mewnol wedi archwilio'r rhaglen, ei llywodraethu a'i strwythur, gan ddyrannu lefel uchel o sicrwydd.

Amlinellwyd camau'r rhaglen/adfer a'i llywodraethu. Ychwanegwyd bod risgiau a materion yn cael eu hadrodd a'u monitro'n fisol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Manteision a buddugoliaethau cyflym, yn benodol sut y caiff ffrydiau eu monitro'n fisol a sut nodir buddugoliaethau cyflym trwy’r olrheinwyr;
- Sut roeddent yn canolbwyntio ar newid cynaliadwy yn arwain at newid diwylliannol a thrawsnewidiol;
- Gallu adnoddau staff i gyflawni'r newid a sut maent yn parhau i ganolbwyntio ar y swydd yn ystod y dydd, wrth adeiladu gallu ar gyfer gynnydd tymor hwy.

Dywedodd Justine Morgan, Swyddfa Archwilio Cymru eu bod wedi bod yn arsylwi ar y newidiadau i arferion gweithio sy'n cael eu rhoi ar waith, a’u bod yn eu croesawu. Ychwanegodd fod rhoi'r newid ar waith yn heriol i'r awdurdod a byddai'n gweld ffordd newydd o weithio erbyn 2025. Roedd y broses o ymdrin â risgiau yn addas i'r diben ac yn darparu sicrwydd i archwilio allanol.

Dywedodd y Cadeirydd fod y sefyllfa gadarnhaol a adroddwyd yn galonogol iawn.

**95 Rhaglen Hyfforddiant y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

Cyflwynodd Adam Hill, y Dirprwy Brif Weithredwr adroddiad a oedd yn manylu ar Raglen Hyfforddiant y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Dywedodd, yn dilyn adroddiad cychwynnol ym mis Gorffennaf 2021, fod yr adroddiad wedi'i fireinio a bod dyddiadau penodol wedi'u cynnwys. Ychwanegodd y byddai'r rhaglen hyfforddi, a atodwyd yn Atodiad 1, yn rhoi sicrwydd i'r pwyllgor fod y gofynion allweddol a gwybodaeth gyffredinol y mae eu hangen i ddeall y dyletswyddau angenrheidiol yn cael eu cynnwys.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Amlinellu'r rhaglen waith flynyddol yn glir ac amlinellu eitemau'n fanylach;
- Yr angen am hyfforddiant rheolaidd/gloywi i helpu'r pwyllgor gyda'i wybodaeth a'i ddealltwriaeth;
- Cyflwyno rhagor o naratif i ddarparu rhagor o gefndir i eitemau;
- Sicrhau bod holl Aelodau'r Pwyllgor yn derbyn yr un lefel o hyfforddiant.

Gofynnodd y Cadeirydd fod yr hyfforddiant rheoli perfformiad a monitro perfformiad/proses adrodd yn cael ei ddarparu i'r pwyllgor cyn y dyddiad ym mis Medi 2022 a gynhwysir yn y rhaglen. Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weithredwr y byddai'n sefydlu a oes modd symud yr hyfforddiant i ddyddiad cynharach.

**Penderfynwyd ar y canlynol:** -

1) Cymeradwyo'r Rhaglen Hyfforddiant Llywodraethu ac Archwilio;
2) Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn sefydlu a oes modd symud yr hyfforddiant rheoli perfformiad a monitro perfformiad/adrodd i ddyddiad cynharach yn y rhaglen.

**96 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio.**

Cyflwynwyd Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 'er gwybodaeth'.

Nododd y Cadeirydd fod Strategaeth y Gweithlu wedi'i threfnu i'w adrodd ym mis Chwefror 2023 a gofynnodd iddynt adrodd amdani'n gynharach. Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weithredwr y byddai'r strategaeth yn mynd trwy'r broses gymeradwyo ffurfiol yn fuan a byddai'r pwyllgor yn derbyn y diweddaraf yn dilyn hynny.

**97 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.**

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 'er gwybodaeth'.

Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai'r Cynllun Gwaith yn cael ei ddatblygu wrth symud ymlaen ac yn cael ei thrafod fel rhan o'r rhaglen sefydlu.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr y byddai meysydd gwahanol cynllun gwaith y pwyllgor yn rhan o'r hyfforddiant sefydlu.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.30 pm

**Cadeirydd**